Gweithgaredd 11b: **Senarios**

Dewiswch y ddwy senario sy'n cyd-fynd orau â'ch rôl ac atebwch y cwestiynau i ddangos eich dealltwriaeth o beth yw camdriniaeth, niwed ac esgeulustod a'r camau y dylech eu cymryd.

Rydych yn gwirfoddoli fel cyfeillachwr mewn sefydliad sy'n cynorthwyo unigolion ag amrywiaeth o anableddau dysgu mewn canolfan ddydd gymunedol. Mae Paul, un o ddefnyddwyr y gwasanaeth, newydd symud i fyw at ei frawd. Hyd yn hyn mae bob amser wedi byw gyda'i rieni, ond mae am fod yn fwy annibynnol. Mae Paul bob amser wedi bod yn dod i'r ganolfan yn rheolaidd a phur anaml y mae wedi colli diwrnod ond ar ôl symud i fyw at ei frawd mae ei bresenoldeb wedi gwaethygu. Pan holwch ef am y peth mae'n dweud wrthych ei fod wedi bod yn brysur yn symud tŷ.

Dros yr ychydig wythnosau nesaf pan fydd yn dod i'r ganolfan, rydych yn sylwi ei fod yn edrych yn fwy anniben a bod ei ddillad yn aml yn frwnt, mae hefyd wedi methu apwyntiad rheolaidd yn yr ysbyty. Heddiw mae Paul yn eich ffonio i ddweud na fydd yn dychwelyd. Mae'n ymddangos yn drist iawn ond dywed mai ei ddewis ef ydoedd.

A oes achos rhesymol i amau bod Paul yn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Rydych yn gwirfoddoli mewn lleoliad seibiant byr i blant ag anableddau. Mae Emily wedi bod yn dod i'r lleoliad ers tair blynedd ac mae bob amser wedi edrych yn yn fodlon ac yn hapus. Yn ddiweddar mae ei rhieni wedi gwahanu ac mae Emily wedi mynd i'w chragen ychydig. Credai'r staff fod hyn yn sgîl y ffaith i'w rhieni wahanu.

Heddiw rydych wedi sylwi wrth weithio gydag Emily fod ganddi gleisiau ar ei breichiau a'i bod yn amlwg wedi mynd i'w chragen ac nad yw mor fywiog ag arfer. Pan ofynnwch iddi beth ddigwyddodd i achosi'r cleisiau mae'n mynd yn ddagreuol iawn ac nid yw am ddweud wrthych sut y'u cafodd.

A oes achos rhesymol i amau bod Emily yn blentyn sydd mewn perygl o gael ei cham-drin, niweidio neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Mae Ceridwen yn 72 oed, mae ganddi ddementia ac mae wedi bod yn dod i'r ganolfan ddydd lle rydych yn gwirfoddoli ers blwyddyn bellach. Ers deufis, mae ei merch, sydd wedi ysgaru, wedi bod yn gofalu amdani gartref ar ôl iddi symud yn ôl i gartref y teulu. Mae Ceridwen yn dechrau edrych yn bryderus ac rydych wedi sylwi ei bod yn gwisgo'r un dillad ddau neu dri diwrnod yn olynol ac mae ei hylendid yn wael. Mae'n dawel ac nid yw'n sgwrsio cymaint ag arfer. Mae Ceridwen yn cadw i ofyn a yw'n amser mynd adref, ond mae'n amharod i fynd i mewn i'r bws mini.

A oes achos rhesymol i amau bod Ceridwen yn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei cham-drin neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Mae Gail yn 14 oed ac mae'n mynd i'r clwb ieuenctid lle rydych yn gwirfoddoli. Mae'n dawel beth bynnag, ond heno rydych yn sylwi ei bod yn dawelach nag arfer ac mae wedi cadw ei chôt ymlaen er bod yr adeilad yn gynnes. Mae Gail yn tynnu ei chôt yn y pen draw ac rydych yn sylwi bod briwiau arwynebol ar ei breichiau, ynghyd â rhai creithiau mewn mannau eraill ar ei braich sy'n dilyn yr un patrwm â'r briwiau mwy diweddar.

A oes achos rhesymol i amau bod Gail yn blentyn sydd mewn perygl o gael ei cham-drin, niweidio neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Rydych yn gwirfoddoli mewn siop elusennol, ac mae un o'ch cydweithwyr, Tim, yn byw mewn hostel i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae Tim yn gofyn a all fenthyg rhywfaint o arian gennych am ei fod yn llwgu a bod angen rhywbeth i'w fwyta arno. Mae Tim yn egluro, ers i reolwr newydd ddechrau yn yr hostel, nad yw wedi gallu rheoli ei arian ei hun ac nid yw'r lwfans y mae'n ei gael yn para am yr wythnos.

A oes achos rhesymol i amau bod Tim yn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Mae Ellie yn 21 oed ac mae ganddi anableddau dysgu cymedrol. Mae'n byw mewn tŷ â chymorth lle rydych yn gweithio neu'n gwirfoddoli. Hoffai gael cariad felly mae wedi dechrau defnyddio gwefannau i ddod o hyd i gariad ac mae wedi cael llawer o ymatebion. Mae wedi dewis cwrdd ag Edward mewn parc lleol am 8pm.

A oes achos rhesymol i amau bod Ellie yn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei cham-drin neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Mae Sam a Siân wedi cael problemau iechyd meddwl ac maent yn byw gyda'i gilydd yn y gymuned ar hyn o bryd. Maent yn cael trafferthion gyda phobl ifanc leol yn eu harddegau yn gweiddi arnynt ac yn defnyddio eu cartref ar gyfer partïon. Mae Sam wedi mynd at ei feddyg teulu yn achwyn ei fod yn methu cysgu ac nawr mae'n dweud wrthych chi am eich bod yn byw gyferbyn.

A oes achos rhesymol i amau bod Sam neu Siân yn oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Mae Rhiannon yn 16 oed ac mae wedi bod yn byw gyda gofalwyr maeth neu ei chwaer hŷn ers pedair blynedd ar ôl i'w mam gael ei charcharu. Anaml iawn y mae'n mynd i'r ysgol; ac mae'n ymddangos fel pe bai'n treulio llawer o'i hamser gyda grŵp o fechgyn a dynion hŷn. Nid yw'n ymddangos eu bod yn gweithio ac maent yn treulio eu hamser yn nhai ei gilydd. Mae Rhiannon wedi cynhyrfu'n aml a phan mae'n eich gweld chi yn 'music4u' mae'n amlwg ei bod wedi bod yn yfed. Gall ymddwyn mewn ffordd ymosodol ac mae'n defnyddio iaith anweddus.

A oes achos rhesymol i amau bod Rhiannon yn blentyn sydd mewn perygl o gael ei cham-drin, niweidio neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Rydych yn weithiwr cymorth gwirfoddol i loches menywod. Rydych wedi bod yn gweithio gydag Anthea sydd yn ei hugeiniau cynnar ac sydd â merch 18 mis oed. Yn dilyn cyfnod yn y lloches mae gan Anthea ei fflat ei hun bellach. Roedd angen i Anthea gael cymorth gan y lloches menywod am fod ei phartner ar y pryd wedi bod yn dreisgar tuag ati o flaen ei merch. Mae gwasanaethau plant a theuluoedd yr awdurdod lleol wedi bod ynghlwm wrth yr achos. Mae Anthea yn dweud wrthych fod ei phartner bellach wedi newid a'i bod yn barod i'w dderbyn nôl gyda'r bwriad y bydd yn rhannu'r fflat. Mae'n erfyn arnoch i beidio â dweud wrth y gwasanaethau plant a theuluoedd am na fyddent yn deall.

A oes achos rhesymol i amau bod Anthea neu ei babi mewn perygl o gael eu cam-drin, niweidio neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Rydych yn gweithio mewn cartref gofal i bobl hŷn ac newydd ddychwelyd i'r gwaith ar ôl tair wythnos o wyliau. Mae Dewi, gŵr 79 oed â dementia yr oeddech yn ei gofio fel rhywun sionc a siaradus, wedi dechrau cymryd meddyginiaeth newydd ac mae wedi cwympo sawl gwaith. Rydych yn sylwi ei fod yn llawer mwy dryslyd a bod ei symudiadau fel pe baent yn llawer mwy anystwyth a stiff. Rydych yn clywed iddo wrthod cymryd ei dabledi yr wythnos diwethaf a'i fod, felly, yn cael pigiadau yn lle hynny.

A oes achos rhesymol i amau bod Dewi yn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu esgeuluso? Pam efallai eich bod chi'n meddwl hyn?

Pa fath o gamdriniaeth neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Rydych chi wedi bod yn ymweld â ffrind mewn oed ers rhai blynyddoedd. Mae'n byw ar ei ben ei hun ac rydych yn ymwybodol fod ganddo fab ond bod eu perthynas yn un anodd. Mae'r ffrind oedrannus hwn wedi dweud wrthych droeon na fyddai eisiau symud i 'gartref' dros ei grogi a does dim dwywaith bod ei annibyniaeth yn bwysig iawn iddo. Wrth i chi gyrraedd y tŷ heddiw rydych chi'n gweld arwydd 'Ar Werth' yn yr ardd, ac mae mab eich ffrind yn ateb y drws ac yn dweud wrthych fod ei dad mewn cartref preswyl mewn tref arall bellach. Mae'n swta iawn ac mae'n amlwg nad yw am drafod y mater ymhellach.

A oes achos i boeni? Pam y gallech fod yn poeni?

Pa fath o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?

Rydych yn sylwi bod golwg wael a phryderus ar un o'ch cydweithwyr. O'i holi sut mae hi, mae'n dweud wrthych fod ei phartner, sydd wedi bod braidd yn genfigennus erioed, wedi bygwth llosgi ei dillad i gyd oni bai ei bod hi'n rhoi'r gorau i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n groes i'w ddymuniadau ef.

A oes achos i boeni? Pam y gallech fod yn poeni?

Pa fath o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod allai fod yn digwydd?

Beth yw'r arwyddion, symptomau?

Pa gamau gweithredu y dylech eu cymryd?

Pwy y dylech ei hysbysu am hyn?

Ym mha ffyrdd y gallech gofnodi hyn / hysbysu rhywun am hyn?